**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Mawrth 2008**

## CYNIGION I'W CYNNWYS YNG NGHYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT Y CYNLLUN LLEIHAU RISG 2009 - 10

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I gyflwyno rhestr o eitemau argymhellwyd gan y Panel Gweithredol ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu drafft y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2009-2010.

**2.** I edrych am gymeradwyaeth yr Awdurdod i gynnwys yr eitemau yma yng Nghynllun Gweithredu drafft 2009-2010. Bydd y Cynllun Gweithredu drafft yn cael ei gyflwyno am gymeradwyaeth yng nghyfarfod yr Awdurdod ym Mehefin 2008 cyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus angenrheidiol o 12 wythnos.

## Cefndir

**3.** Mae canllaw cyhoeddedig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn i awdurdodau tân ac achub ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Lleihau Risg ac/neu Gynllun Gweithredu erbyn 31ain Hydref bob blwyddyn. Rhaid i'r cyfnod datblygu gynnwys proses ymgynghori sy'n para ddim llai na 12 wythnos.

**Cefndir** *(parhad)*

**4.** Roedd canllaw cyhoeddedig y Cynllun Lleihau Risg gwreiddiol yn gofyn i'r awdurdodau tân ac achub drafod eu hargymhellion yn anffurfiol gyda Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cyflwyniad**

**5.** Cyfarfu Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ar 8fed Ionawr a 5ed Chwefror 2008 i fforio ardaloedd i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2009/10. Yn ei gyfarfod ar 3ydd Mawrth 2008, fe luniodd y Gweithgor restr a gafodd ei gymeradwyo gan y Panel Gweithredol, o bedwar pwnc fyddai'n addas i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu drafft y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2009-10. Ar ôl ei lunio, bydd y Cynllun Gweithredu drafft yn cael ei gyflwyno i aelodau am gymeradwyaeth yng nghyfarfod yr Awdurdod ym Mehefin 2008, cyn y cyfnod ymgynghori 12 wythnos.

**Gwybodaeth**

**6.** Yn dilyn ystyried gwybodaeth fanwl, awgrymodd y Gweithgor y byddai'r pedwar ardal pwnc canlynol yn addas i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu drafft y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2009-10. Cytunodd y Panel Gweithredol gyda barn y Gweithgor gan argymell gofyn i'r Awdurdod ganiatáu'r cynigion yma:

**6.1 <u>Adolygu Swyddogion wrth Gefn</u>**
Drwy adolygu'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn cyflenwi rheolwyr wrth gefn mewn digwyddiadau brys, efallai byddai hi'n bosib darparu 'opsiwn ymateb penodol' a sicrwydd gweithredol mewn digwyddiadau.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**6.2 <u>Ffyrdd Amgen o Griwio'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr</u>**
Trosglwyddo'r diffoddwr tân penodol ychwanegol ar Beiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr i wneud gwaith diogelwch cymunedol. Byddai'r diffoddwyr tân yma'n parhau i gynnal cymhwysedd gweithredol ac yn parhau i fod ar gael i ymateb ar gyfnodau prysur neu pan fo amodau eithriadol.

**6.3 <u>Trefniadau Arlwyo</u>**
I adolygu'r trefniadau arlwyo yng ngorsafoedd tân a lleoliadau eraill y Gwasanaeth.

**6.4 <u>Gweithgor Adolygu Gwasanaeth</u>**
Ffurfio gweithgor bychan ar ôl etholiadau'r awdurdodau lleol ym mis Mai 2008 yn cynnwys aelodau, swyddogion a chyrff cynrychioladol i ymgymryd ag adolygiad eang o risgiau yng Ngogledd Cymru ac ystyried yr adnoddau angenrheidiol, a'u lleoliadau i gwrdd â'r risgiau hynny. Bydd yr adolygiad yma'n ffurfio sail y Cynllun Lleihau Risg llawn nesaf – h.y. ar gyfer 2010 – 2011.

**Argymhellion**

**7.** Fod aelodau yn:

**7.1** nodi cynnwys yr adroddiad;

**7.2** yn cadarnhau argymhelliad y Panel Gweithredol i gynnwys y pedwar cynnig uchod yn y Cynllun Gweithredu drafft fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin am gymeradwyaeth i'w anfon am ymgynghoriad cyhoeddus; ac

**Argymhellion** *(parhad)*

**7.3** yn y cyfamser, symud ymlaen i gychwyn trafodaethau anffurfiol ar y cynigion drwy gyfrwng swyddogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.